

## **Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) (Cymru) 2022.**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a chaiff ei osod gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) (Cymru) 2022.

Lynne Neagle AS  
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant  
7 Tachwedd 2022

## Rhan 1

### 1. Disgrifiad

1. Diben yr offeryn hwn yw rhoi grym cyfreithiol i benderfyniad Gweinidogion Cymru o blaid awdurdodi 11 o geisiadau ar gyfer Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2. Dim

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

3. Cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid y mae angen eu hawdurdodi cyn eu rhoi ar y farchnad yw cynhyrchion rheoleiddiedig<sup>1</sup>.
4. Ers 1 Ionawr 2021, mae Prydain Fawr wedi bod yn gyfrifol am asesiadau risg ac awdurdodiadau cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig.
5. Yng Nghymru, yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) sy'n gyfrifol am asesu risg cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig, tra bod Gweinidogion Cymru (fel yr 'awdurdod priodol' mewn perthynas â Chymru) yn gwneud penderfyniadau ar awdurdodiadau.
6. Mae'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer awdurdodi ychwanegion bwyd anifeiliaid wedi'i gynnwys yn Rheoliad (EC) 1831/2003 a ddargedwir ar ychwanegion i'w defnyddio mewn maetheg anifeiliaid. Mae awdurdodiadau yn ddilys am ddeng mlynedd. Caiff deiliaid awdurdodiad wneud cais i adnewyddu'r awdurdodiad ar gyfer marchnata parhaus.
7. Mae'r offeryn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

### 4. Diben y ddeddfwriaeth a'i heffaith fwriadedig

8. Diben yr offeryn yw awdurdodi rhoi un ar ddeg o ychwanegion bwyd anifeiliaid ar y farchnad at ddibenion bwyd anifeiliaid penodol, mewn perthynas â Chymru.
9. Mae'r awdurdodiadau ar gyfer y canlynol:
  - ychwanegion bwyd anifeiliaid maethol sy'n darparu microfaethynnau hanfodol i ddeietau anifeiliaid

---

<sup>1</sup> Mae cynhyrchion rheoleiddiedig yn cynnwys hydoddyddion echdynnu, ychwanegion bwyd anifeiliaid, bwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol (PARNUTS), prosesau dadwenwyno bwyd anifeiliaid, cyflasynnau, deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd, ychwanegion bwyd, ensymau bwyd, bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig, bwydydd newydd a chyflasynnau mwg.

- ychwanegion silwair y bwriedir iddynt wella dulliau cynhyrchu ac eplesu, a/neu sefydlogrwydd aerobig silwair wrth baratoi bwyd anifeiliaid
  - ychwanegion gwella treuliadwyedd i wella treuliadwyedd deietau anifeiliaid, a sefydlogyddion fflora'r perfedd sy'n cael effaith gadarnhaol ar ficro-organebau'r perfedd i gynnal iechyd a pherfformiad anifeiliaid
  - cocsidiostatau sy'n cynnal iechyd anifeiliaid trwy reoli heintiadau yn y perfedd a achosir gan brotosoa/parasitiaid.
10. Pan oedd yn Aelod-wladwriaeth o'r UE, derbyniodd y DU asesiadau Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) i gefnogi awdurdodiadau cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig. Ers diwedd y cyfnod pontio, mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban wedi mabwysiadu'r un canllawiau technegol, trefniadau llywodraethu a phrosesau sicrhau ansawdd er mwyn gwneud asesiadau risg annibynnol ar gyfer Prydain Fawr. Lle bo'r EFSA, cyn diwedd y cyfnod pontio, wedi gwerthuso cais ar gyfer cynnyrch y mae cais hefyd wedi'i gyflwyno i awdurdodau Prydain Fawr ar ei gyfer, mae'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi penderfynu defnyddio asesiad risg yr EFSA, lle bo hynny'n briodol, wrth ffurfio eu barn annibynnol eu hunain.
11. Cafodd pob un o'r un ar ddeg o geisiadau am ychwanegion bwyd anifeiliaid farn asesiad risg gadarnhaol gan yr ASB. Adolygwyd asesiad risg yr EFSA, a luniwyd mewn perthynas â'r ceisiadau am yr un ar ddeg o gynhyrchion tra oedd y DU yn rhan o'r UE, gan Gyfarwyddiaeth Gwyddoniaeth, Tystiolaeth ac Ymchwil yr ASB (SERD) i sicrhau eu priodoldeb ar gyfer Prydain Fawr. Ers hynny mae deg o'r un ar ddeg o ychwanegion bwyd anifeiliaid wedi'u hawdurdodi i'w defnyddio yn yr Undeb Ewropeaidd. Oherwydd Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon, mae'r deg ychwanegyn bwyd anifeiliaid hefyd wedi'u hawdurdodi i'w defnyddio yng Ngogledd Iwerddon. Oherwydd newidiadau gweinyddol a wnaed er mwyn diweddarau dosbarthiad sylweddau gweithredol mewn cynhyrchion, bu oedi wrth gael awdurdodiad ffurfiol gan yr UE ar gyfer un cais, *Bacillus velezensis* (ATCC PTA-6737). Mae'r telerau awdurdodi arfaethedig yng Nghymru fwy neu lai yr un fath â'r rheiny ar gyfer awdurdodi cynhyrchion yn yr UE/Gogledd Iwerddon, neu'r telerau y disgwylir iddynt gael eu hawdurdodi odanynt yno.
12. Mewn achosion lle caiff awdurdodiadau ar gyfer ychwanegion bwyd anifeiliaid eu hadnewyddu, bydd yr awdurdodiad cyfredol yn dod i ben. Pan fydd manyleb neu amodau defnydd yn newid, rhoddir mesurau pontio ar waith i sicrhau y gellir parhau i ddefnyddio sylweddau a gynhyrchir yn unol â'r awdurdodiad cyfredol (lle ystyrir bod hyn yn briodol) hyd nes y disbyddir y stociau cyfredol, er mwyn osgoi effeithiau economaidd ar fusnesau a phroblemau yn y gadwyn gyflenwi.
13. Mae'r offeryn hwn yn gymwys i Gymru.

14. Mae deddfwriaeth gyfatebol wedi'i llunio yn yr Alban a Lloegr. Daw'r rheoliadau i rym ar 24 Tachwedd 2022 yng Nghymru a'r Alban ac ar 25 Tachwedd yn Lloegr.

## 5. Ymgynghoriad

15. Ar 7 Mawrth 2022 lansiodd yr ASB ymgynghoriad tair gwlad ar ffactorau dilys eraill un ar ddeg o ychwanegion bwyd anifeiliaid (Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon). Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol am wyth wythnos, a ddaeth i ben ar 2 Mai 2022. Lansiwyd ymgynghoriad cyfochrog hefyd gan Safonau Bwyd yr Alban yn ystod y cyfnod hwn.

16. Cafwyd dau ymateb i ymgynghoriad yr ASB. Cafwyd un ymateb i ymgynghoriad Safonau Bwyd yr Alban (dyblygiad o ymateb i ymgynghoriad yr ASB). Cafwyd ymatebion yr ASB gan y diwydiant; yn gyntaf, Cymdeithas Gweithgynhyrchwyr Ychwanegion ac Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid Prydain (BAFSAM), sef cymdeithas fasnach sy'n cynrychioli gweithgynhyrchwyr a phroseswyr ychwanegion bwyd anifeiliaid, cynhwysion bwyd anifeiliaid arbenigol, rhag-gymysgeddau a chynhyrchion atchwanegiadau bwyd anifeiliaid ar draws pedair gwlad y DU ac Iwerddon; yn ail, gan y Cydffederasiwn Diwydiannau Amaethyddiaeth (AIC), sef cymdeithas fasnach sy'n gwasanaethu'r diwydiannau amaeth-fusnes a'r diwydiannau cyflenwi amaethyddol yn y DU.

17. Nid oedd gan yr AIC unrhyw bryderon ynghylch diogelwch yr ychwanegion bwyd anifeiliaid, a nododd ei bod yn hanfodol i sector bwyd anifeiliaid da byw y DU fod ystod eang o ychwanegion diogel ac effeithiol yn parhau i fod ar gael i'r diwydiant er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol sy'n dod yn sgil ymadael â'r UE. Croesawodd BAFSAM gyhoeddi ymgynghoriad yr ASB ar ychwanegion bwyd anifeiliaid. Gwnaethant sylw cyffredinol hefyd ar gyfnodau pontio, gan awgrymu dull fesul achos, gan fod gan rai ychwanegion bwyd anifeiliaid oes silff o 12 mis, tra bod gan fwyd anifeiliaid cyfansawdd oes silff o 24 mis. Gwnaethant sylwadau pellach ynghylch datblygu dull parhaus yr ASB o ymdrin â'r broses cynhyrchion rheoleiddiedig.

18. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn gofyn am farn rhanddeiliaid am drefniadau pontio arfaethedig ar gyfer tri o'r ceisiadau i ganiatáu ar gyfer disbyddu'r stociau cyfredol (RP130, RP131 a RP1030). Ni chafwyd unrhyw ymatebion yn gwrthwynebu'r mesurau pontio a gynigiwyd.

19. Rhoddodd yr ASB wybod i awdurdodau lleol Cymru am yr ymgynghoriad cyn ei lansio, ac anfonodd ddolen at yr ymgynghoriad at awdurdodau lleol ar ôl ei lansio. At hynny, gwnaeth yr ASB roi gwybod i randdeiliaid allweddol yng Nghymru am yr ymgynghoriad pan gafodd ei lansio, a rhoddodd ddiweddariad i randdeiliaid Cymru eto wythnos cyn i'r ymgynghoriad ddod i ben.

20. Ystyriwyd ymatebion rhanddeiliaid yn drylwyr gan yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban. Cynhaliwyd trafodaethau pedair-gwlad (yr ASB, yr ASB yng Nghymru, yr ASB yng Ngogledd Iwerddon, a Safonau Bwyd yr Alban), yn unol â'r Fframwaith Cyffredin Dros Dro ar gyfer Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon posib.
21. Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ac ymatebion canlynol yr ASB, wedi'u cyhoeddi ar [wefan yr ASB](#).

## **6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

22. Mae'r ASB wedi asesu'r effeithiau a fyddai'n deillio o awdurdodi'r ychwanegion bwyd anifeiliaid hyn. Roedd yr effeithiau a ystyriwyd yn cynnwys y rheiny a gafodd eu nodi amlaf fel effeithiau posib wrth gyflwyno neu ddiwygio cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid (er enghraifft, gwaith gweithredu awdurdodau lleol, iechyd, yr amgylchedd, twf, arloesi, masnach, cystadleuaeth, buddiannau defnyddwyr, a busnesau bach a micro). Ni wnaeth yr ASB nodi unrhyw effeithiau arwyddocaol, felly ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol llawn.
23. Yn gyffredinol, nododd yr ASB y dylai awdurdodi'r cynhyrchion hyn arwain at fwy o gystadleuaeth yn y farchnad, gan gefnogi twf ac arloesi yn y sector.